ucm cymru
undeb cenedlaethol y myfyrwyr
nus wales
national union of students

2il Lawr
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL
ff 02920 435 390
e office@nus-wales.org.uk
www.nus.org.uk

2nd Floor
Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL
t 02920 435 390
e office@nus-wales.org.uk
www.nus.org.uk

## 1. UCM Cymru

1.1. Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCMC) yw'r mudiad democrataidd mwyaf yng Nghymru sy'n cynrychioli dysgwyr mewn ystod eang o sefyllfaoedd, gan gynnwys addysg bellach ac uwch, addysg gymunedol i oedolion a phrentisiaethau.

## 2. Sylwadau Cyffredinol

2.1. Rydym yn croesawu'r cyfle i roi ymateb ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg.

2.2. Cred UCM Cymru y dylai addysg fod yn gynhwysol; hynny yw y gall y myfyrwyr oll gael mynediad i addysg a chael llwyddiant, beth bynnag fo'u cefndir neu nodweddion. Yng Nghymru, y mae'n rhaid i addysg gynhwysol gynnwys y gallu i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Pan rydyn yn sôn am addysg gyfrwng Cymraeg golygwn nid yn unig yn yr ystafell ddosbarth ond hefyd fod myfyrwyr yn gallu byw trwy gyfrwng y Gymraeg tra'n astudio; o seminarau i lety myfyrwyr, ac o gefnogaeth myfyrwyr i adnoddau digonol trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.3. Teimlwn y dylai'r safonau iaith sicrhau fod gan fyfyrwyr yng Nghymru yr hawl at fynediad i addysg gyfrwng Cymraeg er mwyn iddynt allu defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywyd yn y coleg, y brifysgol neu tra'n gwneud prentisiaeth.

2.4. Yn 2016 roedd undebau myfyrwyr yn pryderu nad oedd y rheoliadau'n ddigon cryf i allu sicrhau addysg gynhywsol ac mai'r unig ffordd i ddylanwadu ar y safonau oedd galw iddynt gael eu gwrthod, fel y digwyddodd. Tra ein bod yn falch fod hyn wedi sicrhau mwy o amser i wella'r rheoliadau, yn y dyfodol hoffem weld strwythurau cryfach mewn lle i allu craffu ar y rheoliadau fel nad oes angen rhwystro'r rheoliadau unwaith yn rhagor.

## 3. Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

3.1. Rydym yn falch iawn o weld bod yr eflennau canlynol wedi eu hychwanegu at y rheoliadau canys eu bod yn hanfodol er mwyn galluogi i fyfyrwyr allu byw trwy gyfrwng y Gymraeg tra yn astudio:

Hawl i weld arwyddion ar adeiladau'r corff yn Gymraeg
Hawl i fynegi dymuniad i gael llety myfyrwyr cyfrwng Cymraeg
Hawl i Fewnrwyd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg
Hawl i'r Gymraeg mewn canolfannau celfyddydau
Hawl i diwtor personol sy'n siarad Cymraeg

3.2. Er hyn, y mae yna dal i fod elfennau yr ydym yn teimlo sydd ar goll o'r rhestr ym mharagraff 31. Y mae'n anochel bron y bydd eflennau ar goll pan roddir rhestr gyfyngedig. Hoffem felly weld fod y rhestr yn cyfleu yr egwyddor y dylai

myfyrwyr gael mynediad at addysg Gyrmaeg gynhwysol a bod yr elfennau a nodir yn y rhestr yn cyfleu y lleiafswm y dylid ei ddarparu. Hoffem hefyd weld yr eflennau canlynol yn cael eu hychwanegu:

1) gohebiaeth bersonol i fyfyrwyr

2) prosesau talu ffioedd myfyrwyr

3) cofnodion myfyrwyr

4) y broses o geisio am ysgoloriaethau

3.3. Credwn y dylai myfyrwyr allu cael mynediad at wersi Cymraeg er mwyn i bob myfyriwr gael cyfle i ddysgu a gwella eu Cymraeg. Hoffem weld mwy o sylw yn cael ei roi i'r elfen yma – yn enwedig gan ei fod yn cefnogi amcan Llydoraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3.4. Mae'r term 'lles myfyrwyr' yn un eang iawn. Tra nad ydym am weld y diffiniad yn cael ei ddileu o'r rhestr nac yn cael ei gyfyngu, byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw arbennig at y gwasanaethau canlynol:

Cymorth ariannol
Gwasanethau cwnsela
Cymorth tai
Cymorth i fyfyrwyr gydag anableddau
Systemau cymorth cyfoedion

3.5. Rydym yn gobeithio y bydd Llydoraeth Cymru yn parhau i ddatblygu darpariaeth addysg gyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-orfodol.